# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 14eg o Fawrth 2017 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr Wyn Jones (Cadeirydd), Gerallt Davies, a Barry Owen.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Sirol John Lumley a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Jocelyn Andrew, Garym Roberts, Carys Morgan, Ruby Williams, Wyn Evans ac Eiddwen Merritt.

**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Chwefror a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

Dim.

**Materion Cynllunio**

Rhif Cais: A170194.

Fferm Bargoed, Llwyncelyn, Aberaeron.

Cadw cynllun y safle diwygiedig ar gyfer 30 o leiniau carafannau teithiol a 20 o bebyll, lleoliad diwygiedig ar gyfer bloc cawodydd, gwaith mynediad a thirlunio cynllun diwygiedig i ganiatad cynllunio A110299.

Dim gwrthwynebiad, ond pwysleisio ein bod wedi cymryd sylw o'r amodau ar y Casgliad ar Gynllun Safle'r Carafannau Morgan and Davies (Rhif 7.0).

Rhif Cais: A170168.

Tir cyfagos i Tyr Celyn, Ffosyffin, Aberaeron.

Codi annedd.

Dim gwrthwynebiad, ond pwyntio allan y gall greu datblygiad rhuban.

Rhif Cais: 170166.

Tir ar bwys yr Ardd Goffa, Derwen Gam, Llanrth.

Codi annedd.

Dim gwrthwynebiad.

**Talu Praesept 2017/2018.**
Derbyniwyd lythyr yn hysbysu am y taliad o £5500.00 dros 2017/2018.
**Comiswn Ffiniau i Gymru**
Darllenwyd lythyr yn ymwneud a'r arolwg 2018 o'r Etholaethau Seneddol yng Nghymru, derbynwyd y llythyr.
**Ceisiadau am arian.**

| | | |
|---|---|---|
| Gofal Mewn Galar | - | £50.00 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | - | £50.00 |
| Teenage Cancer Trust | - | £50.00 |
| R.A.B.I. | - | £50.00 |
| Shelter Cymru | - | £50.00 |
| Gwyl Cerdd Dant Llandysul | - | £50.00 |

**Unrhyw Fater Arall**
Dywedodd y Cynghorydd Barry Owen fod yna lawer o dyllau ar y ffordd rhwng Pontprenddu, Derwen Gam a'r pentre ac hefyd fod yna borfa ar y palmant ger Garthwynnog, Llwyncelyn yn ei wneud yn beryglus i gerddwyr.
Gofynnwyd i'r clerc i gysylltu a'r adran Briffyrdd.

Mae'r cyfarfod nesaf ar y 11fed o Ebrill.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00.